**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS FAWRTH, 25AIN MAI 2021 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C. Matthews (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, N. Bastow, C. Brockley, G. Campbell, R. Owen, J. Pearson, T. Pearson (Dirprwy Faer), S. Price, S. Ryder, M. Tasker, M. Worth..

**SWYDDOGION:** Mrs Tina Earley, Clerc y Dref
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

**28/21 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau ag aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Maer, y Cynghorydd Mrs M. Jones. .

**29/21 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor am 2021/22:**

Am fod y Cadeirydd wedi cwblhau ei dymor o ddwy flynedd yn ei swydd, gofynnodd am enwebiadau am swydd Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn drefol newydd.

***Yn dilyn enwebiad y Cynghorydd C. Matthews (Is-Gadeirydd), cafodd ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2021-22***

Gyda'r Cynghorydd Matthews yn y Gadair, gofynnodd am enwebiadau am swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn drefol newydd..
Enwebwyd y Cynghorwyr G. Campbell a J. Pearson i swydd yr Is-Gadeirydd.
.
Cynhaliwyd pleidlais gudd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor ar apwyntiadau a chanlyniad y bleidlais oedd 6:6 ac felly defnyddiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd C. Matthews ei bleidlais fwrw.

***Etholwyd y Cynghorydd G. Campbell i fod yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2021/22.***

**30/21 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganodd y Cynghorydd M. Worth a'r Clerc cysylltiad, na all ragfarnu, yng nghais O/48475 am fod y ddau ohonynt yn ymddiriedolwyr o Ganolfan Gymunedol Bryn Cadno.

**31/21 Cofnodion:**

a) ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2021 yn adroddiad cywir.***

b) ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig a gynhaliwyd ar 14eg Mai 2021***

**32/21 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>**

a) **Cofnod 364/20 - Cynnig am Enwi Stryd:**
Cyflwynodd y Clerc ymateb ebost oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sir Conwy yn cadarnhau ei pholisi dwyieithog parthed enwau strydoedd (y defnydd o enwau Cymraeg) ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**33/21 <u>Is-Bwyllgorau:</u>**

***Penderfynwyd ail-benodi Is-Bwyllgor y Tân Gwyllt ac Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig ac i gymeradwyo'r cylch gorchwyl fel y dangosir yn Rhestr 'A' sydd gyda hwn.***

**34/21 <u>Yr Adroddiad Blynyddol:</u>**

***Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad a ddiweddarwyd, i gael ei gyhoeddi unwaith bydd yr Incwm / Gwariant terfynol ar gyfer 2020/21 wedi cael ei gadarnhau (archwilio) a bod y delweddau yn cael eu mewnosod.***

**35/21 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

a) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Oak Drive,. Bae Colwyn ar 3/6/21 (Adnewyddu polyn).
b) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig dros dro ar gyfer Ffordd Nant y Glyn, Bae Colwyn o 10/5 – 31/5/21 (Gwaith Nwy).
c) **Meysydd Chwarae:** Nodwyd gan yr Aelodau'r ebost byr oddi wrth GBS Conwy gyda'r diweddariad am y gwaith ym maes chwarae Eirias isaf.
ch) **Llwybrau Teithiau Gweithredol:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, yr ebost ynglŷn ag ymgynghoriad.
d) **Cynllun Chwarae Allan 2021:** Cyflwynwyd ebost gyda manylion am leoliadau'r cynllun ynghyd ag adroddiad, ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

**36/21 <u>Chwarae Cymru:</u>**

Fe nodwyd Taflen Newyddion Gwanwyn 2021 gan yr Aelodau.

**37/21 <u>Cynllunio</u>:**

a) Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Gan iddynt ddatgan cysylltiad personol, cafwyd eglurhad byr gan y Clerc a'r Cynghorydd Worth, na fyddai'r cais am annedd yn effeithio ar y ganolfan

gymunedol. Fodd bynnag, os rhoddir caniatâd, fe ddylid gofyn am amod i sicrhau nad yw'r adeiladwyr / datblygwyr yn defnyddio maes parcio'r ganolfan gymunedol oherwydd y difrod a wneir i'r arwynebedd gan loriau trwm yn parcio yna heb awdurdod.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Rhestr 'B' sydd gyda hwn.***

**b)** Cyflwynodd y Clerc y Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnod o 19/4/2021 hyd at 16/5/2021 ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

**c) Rhybudd o Dynnu Cais yn ôl:**

Cyflwynodd y Clerc y Rhybudd o dynnu cais yn ôl parthed cais cynllunio O/48341 ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

**38/21 <u>Cyfarfodydd y Dyfodol:</u>**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc bod yr Adendwm i'r Rheolau Sefydlog yn rhoi awdurdod i'r Clerc a'r Cadeirydd benderfynu a yw cyfarfodydd i gael eu cynnal wyneb yn wyneb neu yn hybrid. Ceisiodd y Clerc sylwadau'r Aelodau a ddylai cyfarfodydd y Pwyllgor cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn y brif siambr (fel cyfarfodydd hybrid) neu i barhau gyda chyfarfodydd o bellter. Roedd hyn am resymau iechyd cyhoeddus hyd nes bydd y cyfyngiadau ar gyfarfodydd dan do yn cael eu dileu.

***Penderfynwyd parhau i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor o bellter ar hyn o bryd a nodi bydd hyn yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y Clerc a'r Cadeirydd wrth i'r cyfyngiadau codi.***

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm …… Cadeirydd

**CYNGOR TREF BAE COLWYN BAY TOWN COUNCIL**
**CEISIADAU CYNLLUNIO/PLANNING APPLICATIONS**
**25/05/2021**

| Cyfeirnod/ Reference | LEFEL/ LEVEL | CAIS/APPLICATION |
|---|---|---|
| 0/48456 | D | Newid defnydd llawr gwaelod 121 Conway Road o siop (dosbarth defnydd A1) I asiantaeth gwerthu tai (defnydd dosbarth A2)<br>**Safle:** Ground Floor 121. Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7LS<br>**Ymgeisydd**: Mike Tanner<br>**Dim Gwrthwynebiad**<br>Change of use of the ground floor 121 Conway Road from a shop (use class A1) to an Estate Agents (use Class A2)<br>Location: Ground Floor 121. Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7LS<br>**Applicant**: Mike Tanner<br>**No Objection** |
| 0/48468 | D | Gosod giat o flaen yr eiddo<br>**Safle:** 27, Meiriadog Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9NR<br>**Ymgeisydd**: Mrs Sandra Edwards<br>**Dim Gwrthwynebiad**<br>Erection of gate to the front of the property<br>**Location:** 427, Meiriadog Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9NR<br>**Applicant:** Mrs Sandra Edwards<br>**No Objection** |
| 0/48472 | D | Newid y ffasgiau y soffitiau a'r estyll talcen presennol am UPVC rhos bren. Newid cafnau a pibellau dwr am UPVC brown. System gapio ymyl trwsio sych berchenogol I'r ymylon agored presennol. Newid y balconiau presennol am falconiau dur gwyn wedi'u gorchuddio a phowdr gyda phlatfform 300m o ddyfnder = 1100mm o uchder wrth 1300mm o led: balconiau 'Vantage Design' gan C&R Direct Metalworks, Rochdale<br>**Safle:** Llys Hafan, Everard Road, Rhos on Sea, LL28 4EY<br>**Ymgeisydd:** Suzanne Mazzone<br>**Dim Gwrthwynebiad**<br>Replacement of existing fascias, soffits and bargeboards with rosewood UPVC. Replacement of gutters and downpipes with brown UPVC, proprietary dry fix verge capping system to the existing exposed verges, Replacement of existing balconies with new powder coated white steel balconies with 300mm deep platform – 1100mm high by 1300mm wide 'Vantage Design' Balcony from C&R Direct Metalworks, Rochdale<br>**Location:** Llys Hafan, Everard Road, Rhos on Sea, LL28 4EY<br>**Applicant:** Suzanne Mazzone<br>**No Objection** |
| 0/48475 | D | Annedd preswyl newydd ar ei ben hun<br>**Safle:** 46, Bryn Cadno, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay, LL29 6DW<br>**Ymgeisydd:** Mr Nick Butterworth<br>**Os rhoddir caniatâd, mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r cais a gyflwynwyd gan Ymddiriedolwyr Canolfan Gymunedol Bryn Cadno i osod amod na chaniateir y defnydd o Faes Parcio'r Ganolfan Gymuned. Mae'r Cyngor Tref yn gofyn hefyd i bryderon y cymydog mewn perthynas â phreifatrwydd yn cael sylw, a byddant yn cefnogi'r defnydd o wydr preifatrwydd ar gyfer ffenestri'r llawr cyntaf oherwydd agosrwydd yr adeilad newydd at ffin / gardd yr eiddo cyfagos** |

| Cyfeirnod/ Reference | LEFEL/ LEVEL | CAIS/APPLICATION |
|---|---|---|
| | | New detached residential dwelling<br>**Location:** 46, Bryn Cadno, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay, LL29 6DW<br>**Applicant:** Mr Nick Butterworth<br>**The Town Council supports the request, if permission is granted, that there be a condition to prohibit the use of the Community Centre Car Park, as requested by the Trustees of the Bryn Cadno Community Centre.**<br>**The Town Council also requests that the concerns of the neighbour are addressed with regard to privacy and would support the use of privacy glass to first floor windows, due to the proximity of the new dwelling to the boundary/garden of the neighbouring property.** |
| 0/48488 | D | Torri Canghennau isaf 1 goeden sycamorwydden ac 1 goeden Ffawydden a thorri canghennau isaf a thocio 1 goeden gelynnen ac 1 goeden sycamorwydden<br>**Safle:** Woodlea Gardens, 10, Ebberston Road West, Rhos on Sea, LL28 4AP<br>**Ymgeisydd**: Ms Julia Houghton<br>**Dim Gwrthwynebiad**<br>To crown lift 1 no Sycamore & 1 no beech and to crown lift and prune 1 no holly & 1 no sycamore<br>**Location**: Woodlea Gardens, 10, Ebberston Road West, Rhos on Sea, LL28 4AP<br>**Applicant**: Ms Julia Houghton<br>**No Objection** |
| 0/48489 | D | Tynnu 1 coesyn oddi ar ffawydden ami-goes<br>**Safle**: 10, Trem Nant Eirias, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8RX<br>**Ymgeisydd**: Mr Robert Tyson<br>**Dim Gwrthwynebiad**<br>To remove 1 stem from a multi-stemmed beech tree<br>**Location**: 10, Trem Nant Eirias, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8RX<br>**Applicant**: Mr Robert Tyson<br>**No Objection** |
| 0/48500 | D | Cynnig arfaethedig i adeiladu estyniad dormer ac estyniad ochr mwy<br>**Safle**: Derwen Deg, 3, Craig Heights, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9HN<br>**Ymgeisydd**: Mr Wes Arnold<br>**Dim Gwrthwynebiad**<br>Proposed dormer extension and enlarged side extension<br>**Location**: Derwen Deg, 3, Craig Heights, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 9HN<br>**Applicant**: Mr Wes Arnold<br>**No Objection** |
| 0/48505 | D | Newid Defnydd Arfaethedig Lloriau Uchaf i 9 Annedd a Gwaith ac Addasiadau Cysylltiol<br>**Safle**: 40, Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7HU<br>**Ymgeisydd**: Mr Nick Rowland<br>**<u>Gwrthwynebiad</u>**<br>**Mae'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu oherwydd pryderon nad yw'r man storio biniau yn addas yn ei leoliad presennol ac fe allai fod yn beryglus mewn achos o dân. Mae'r Cyngor Tref yn awgrymu hefyd y dylid cael lleoliad arall i'r rhesel beiciau, oherwydd fe allai fod yn rhwystr ar briffordd gyhoeddus, yn arbennig i rai gydag anableddau. A ellid rhoi'r rhesel beiciau yn y lle a dynodwyd ar gyfer y biniau a chael hyd i leoliad arall i'r biniau?**<br>Proposed Change of Use of Upper Floors into 9 no Dwellings and Associated Works & Alterations<br>**Location**: 40, Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7HU |

| Cyfeirnod/ Reference | LEFEL/ LEVEL | CAIS/APPLICATION |
|---|---|---|
| | | **Applicant**: Mr Nick Rowland<br>**<u>Objection</u>**<br>**The Town Council objects on the grounds of concerns that the bin store is unsuitable in its proposed location and could be a fire hazard. The Town Council also suggests that another location is found for the cycle rack, as it could cause an obstruction on the public highway, especially for those with disabilities. Could the cycle store replace the proposed bin store and an alternative location be found for the bins?** |